Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff Polisi
Medi 2021

# Gwaith amlasiantaeth a deilliannau i blant sy’n derbyn gofal: Adolygiad tystiolaeth

## Cyflwyniad

Bydd plant a theuluoedd 'mewn perygl' yn rhyngweithio'n aml ag asiantaethau a gwasanaethau lluosog. Mae wedi bod yn ddyhead ers amser maith bod y cyrff hyn a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn cael eu cydgysylltu'n well ac, ar ben hynny, yn troi o gwmpas y bobl y maent yn ceisio eu helpu. Gyda gwaith arall yn canolbwyntio ar y ffactorau sy'n arwain at blant yn derbyn gofal[i] ac unigrywiaeth materion a llwybrau plant mewn gofal[ii], mae'r adolygiad hwn yn ceisio hyrwyddo'r pwnc trwy ddadansoddi sut gall gwaith amlasiantaeth mewn gwasanaethau plant arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Seiliwyd hyn ar ddealltwriaeth y gall mwy o gydlynu a chydlyniant arwain at ganlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd.

O ganlyniad, trafodwyd gwaith amlasiantaeth yn academaidd a chan lywodraethau ledled y byd fel sbardun allweddol i wella’r system gofal cymdeithasol i blant. Yn y Deyrnas Unedig, mae gwaith amlasiantaeth wedi bod yn ganolbwynt i wasanaethau plant ers yr 1980au[iii]. Yng Nghymru, mae fframwaith polisi helaeth sy'n cefnogi gwaith amlasiantaeth i blant, sy'n cynnwys **rhaglenni** fel Teuluoedd yn Gyntaf, **deddfwriaeth** fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), **fframweithiau arolygu** gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a **Grŵp Cynghori Gweinidogol** ar Wella Canlyniadau i Blant.

Mae'r nodyn briffio hwn yn ceisio dwyn ynghyd fewnwelediadau o lenyddiaeth academaidd a llwyd i gysylltu gwaith amlasiantaeth a chanlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Adolygwyd saith deg pump o astudiaethau, y mwyafrif o'r Deyrnas Unedig, er bod tystiolaeth berthnasol o wledydd eraill, megis Portiwgal, Awstralia, a Seland Newydd. Mae'r astudiaethau hyn hefyd yn ymdrin ag ystod o anghenion penodol, fel plant ag anableddau, ond hefyd plant ifanc a phlant mewn sefyllfaoedd bregus.

Rydym yn archwilio'r ffactorau y mae'r llenyddiaeth yn dangos eu bod yn gallu cynyddu effeithiolrwydd gwaith amlasiantaeth mewn gwasanaethau plant a'r hyn y gall yr effeithiolrwydd hwnnw ei olygu o ran canlyniadau i blant mewn gofal a'u teuluoedd.

## Beth gall y dystiolaeth ei ddweud wrthym?

Dangoswyd bod gwaith amlasiantaeth mewn gwasanaethau plant yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i blant mewn gofal o dan lawer o amgylchiadau.

Mae’r dystiolaeth yn aml yn canolbwyntio naill ai ar:

- A yw'r asiantaethau dan sylw yn canfod ymdrechion i ysgogi gwaith amlasiantaeth fel llwyddiant neu fethiant[iv]; neu

- I ba raddau y mae gwaith amlasiantaeth yn cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus i blant[v].

Nid oedd bron dim o'r astudiaethau a adolygwyd yn gymharol. Lle mae'n edrych ar y canlyniadau i blant, mae'r dystiolaeth fel arfer wedi'i seilio ar raglen neu brofiad amlasiantaeth penodol, yn hytrach na golwg systematig ar waith amlasiantaeth, hynny yw, dadansoddi y tu hwnt i achosion unigol[vi]. Oherwydd natur ansoddol y llenyddiaeth, nid oes unrhyw ganfyddiadau yma o dreialon nac arbrofion, na dadansoddiadau 'cyn ac ar ôl' sy'n cwmpasu nifer fawr o achosion. Yn lle hynny, bu'r ymchwilwyr a'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar gyfweliadau a phrofiadau bywyd.

Mae adolygiadau llenyddiaeth yn dwyn ynghyd enghreifftiau o arfer da, ond nid yw'r mwyafrif yn cysylltu hyn â chanlyniadau plant a theuluoedd[vii], ac eithrio astudiaeth gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar[viii], sy'n dwyn ynghyd sawl astudiaeth achos o waith amlasiantaeth a'u canlyniadau. Dylid ystyried y canfyddiadau gan gadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof.

Rydym wedi darganfod bod yna ffactorau sy'n arwain at waith amlasiantaeth effeithiol, er nad yw'r union gyfuniad yn hysbys (hynny yw, nid yw'r hyn sy'n ddigonol ac yn angenrheidiol yn hysbys). Gall gwaith amlasiantaeth, pan fydd yn effeithiol, arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd, naill ai'n uniongyrchol neu trwy adnabod ac ataliaeth / ymyrraeth gynnar. Gweler Ffigur 1 am ddiagram sy'n cynrychioli'r canfyddiadau hyn.

## Beth sy'n gwneud gwaith amlasiantaeth yn effeithiol?

Mae tystiolaeth yn dangos bod gwaith amlasiantaeth effeithiol yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant. Gwelsom ddau fath gwahanol o arferion sy'n creu gwaith amlasiantaeth llwyddiannus: y rhai sy'n gysylltiedig â **strwythurau / mecanweithiau llywodraethu** mewn gwasanaethau a'r rhai sy'n gysylltiedig â **gweithio mewn tîm yn effeithiol**.

### Strwythurau/mecanweithiau llywodraethu

***Gweithiwr allweddol***

Er nad yw rôl y gweithiwr allweddol wedi'i diffinio'n dda yn y llenyddiaeth, mae'n cael ei chrybwyll yn eang, ac yn amlach na ffactorau eraill mewn perthynas â chanlyniadau effeithiol gwaith amlasiantaeth. Y syniad yw bod rhywun ymroddedig yn gweithredu fel cyswllt rhwng y teulu a'r ystod o wasanaethau ac asiantaethau sy'n rhyngweithio â nhw, fel bod y broses yn ymddangos yn syml ac yn hygyrch i blant a theuluoedd. Nid yw'n ofynnol bod gan yr unigolyn hwnnw gefndir penodol[ix]. Maent yn rhywun y mae'r teulu'n gwybod bod modd cysylltu â nhw am ba reswm neu angen bynnag[x].

> **Dywedodd rhai teuluoedd eu bod wedi teimlo eu bod yn cael eu 'siomi' gan weithwyr allweddol, neu eu bod yn dal i orfod dweud pethau drosodd a throsodd ac nad oedd negeseuon yn cael eu trosglwyddo.**
> (Abbott et al., 2005b, t. 235)

Os yw'n effeithiol, mae'r gweithiwr allweddol yn sefydlu llinellau cyfathrebu clir rhwng teuluoedd a'r gweithwyr / asiantaethau sy'n darparu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth mae arnynt eu hangen. Mae hefyd yn helpu i ddiffinio atebolrwydd am brosiectau neu gynlluniau gofal, a chafwyd bod hyn yn atal yr angen am wasanaethau mwy cymhleth[xi].O ganlyniad, mae'n hanfodol i ddarparu eglurder ac atebolrwydd i brosesau.Er gwaethaf symlrwydd ymddangosiadol y rôl, mewn gwirionedd mae'n aml yn gymhleth iawn[xii].Mae'n bwysig bod gweithwyr allweddol yn ymroddedig a bod cyfathrebu'n cael ei gynnal yn dda. Mae tystiolaeth bod trosiant uchel ymhlith gweithwyr allweddol yn arbennig yn her i deuluoedd â phlant mewn gofal: roedd trosiant staff uchel

mewn rhai meysydd yn achosi trafferthion o ran cynnal dilyniant.

*Rhannu gwybodaeth*

Mae rhannu gwybodaeth yn caniatáu i weithwyr mewn tîm amlasiantaeth fod yn ymwybodol a chael mewnbwn i fanylion cynllun gofal plentyn. Yn hytrach na bod â gweithiwr cymdeithasol, athro a seicolegydd, er enghraifft, sy'n asesu 'angen' ar wahân ac yn paru hynny â gwasanaethau, gellir cynnwys yr actorion hyn yng ngwaith ei gilydd a chynllunio yn unol â hynny.

Gall rhannu gwybodaeth fod yn fater o arfer ac yn arfer diwylliannol ond hefyd y mae yna brotocolau sy’n ei hwyluso.  O ganlyniad, nid yw'n eglur beth yw'r dulliau mwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth, ond mae'r rhain yn cynnwys continwwm o analog a digidol, o ryngweithio wyneb yn wyneb neu dros y ffôn i gronfa ddata a rennir neu feddalwedd[xiii]; cyfarfodydd rheolaidd lle rhennir gwybodaeth rhwng pobl a’i gilydd[xiv]; a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i aelodau lluosog o'r tîm[xv].

Mae arferion da yn tynnu sylw at enghreifftiau lle gall gweithwyr gael gafael ar wybodaeth yn hawdd - ond unwaith eto, gall hynny fod yn wir oherwydd bod y gweithiwr allweddol yn yr un lleoliad neu oherwydd bod cronfa ddata a rennir.

*Hyfforddiant ar y cyd*

Mae hyfforddiant ar y cyd neu ryngasiantaeth yn gysylltiedig â gwella perthnasoedd ymhlith gweithwyr mewn tîm amlasiantaeth, eu paratoi ar gyfer gwaith amlasiantaeth, a gall eu galluogi i rannu'r un prosesau a iaith. Mae hyn hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar waith amlasiantaeth ei hun. Mae'r dystiolaeth yn dadlau bod tîm sydd wedi'i hyfforddi a'i gysylltu'n well, sydd wedi cael yr un hyfforddiant, yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell i blant sydd mewn gofal[xvi].

*Cydleoli*

Mae cydleoli yn aml yn golygu man lle mae'r tîm amlasiantaeth yn cydweithio o ddydd i ddydd[xvii], er y gall olygu cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd[xviii]  neu gyfarfodydd rhithwir mewn rhai sefyllfaoedd[xix]. Mae'r posibilrwydd hwn ar gyfer rhyngweithio a rhannu gofod yn hybu 'meithrin perthynas, cyd-ddealltwriaeth broffesiynol a datblygu ymddiriedaeth’[xx]. Mae cydleoli yn hwyluso rhannu gwybodaeth a datblygu iaith a phrosesau a rennir, gan leihau'r potensial ar gyfer anghydbwysedd pŵer[xxi].

*Ariannu ar y cyd / cyllidebau cyfun*

Gwelwyd bod cyllid ar y cyd neu gyllidebau cyfun yn arwain at well atebolrwydd a gwell gwasanaethau wrth i asiantaethau a gweithwyr rannu'r un cyllidwr. Roedd asiantaethau oedd yn cydweithio hefyd yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth well yn eu gwaith pan oedd ganddyn nhw gyllid ar y cyd[xxii].

*Grymuso rhieni / gofalwyr*

Rhan o hyn yw cynnwys y rhieni / gofalwyr a’r plant (pan fo hynny'n bosibl) mewn trafodaethau a chynllunio am eu gofal[xxiii]. Dangosodd un astudiaeth ar systemau gofal iechyd ym Manceinion Fwyaf fod modd gwneud newidiadau bach i gynhyrchu canlyniadau sylweddol, gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd gyda system o gylchdroi cadeiryddion, i darfu ar anghydbwysedd pŵer[xxiv].

Trwy rannu pŵer a chynnwys rhieni / gofalwyr mewn trafodaethau a gwneud penderfyniadau, mae gwaith amlasiantaeth yn gallu ymateb i anghenion sy'n cael eu lleisio gan y teulu a derbyn eu cefnogaeth gydag atebion.

## Gweithio’n effeithiol mewn tîm

*Eglurder ac atebolrwydd*

Mae 'eglurder' yn cael ei gysylltu’n aml yn y llenyddiaeth â gwaith amlasiantaeth llwyddiannus, ac mae'n gysylltiedig â nodau, camau gweithredu a chyfrifoldebau unigol (h.y., eglurder ynghylch 'pwy sy'n gwneud beth', gan gynnwys rhieni / gofalwyr).

Mae atebolrwydd yn ymddangos yn aml mewn cysylltiad ag ef, gan fod rolau a chyfathrebu clir yn galluogi unigolion i gyfrif am weithredoedd ei gilydd a'u gweithredoedd eu hunain. Mae hyn hefyd yn cynnwys unigolion yn deall yr hyn y maent yn gyfrifol amdano.

Ymddengys bod atebolrwydd hefyd yn gysylltiedig â chyllid a gweithwyr allweddol, trwy'r llinellau tryloywder a chyfathrebu uniongyrchol y mae'r rhain yn eu darparu[xxv].

***Arweinyddiaeth / uwch reolwyr a llywodraethu lleol***

Mae arweinyddiaeth ac uwch reolwyr a llywodraethu lleol yn effeithio ar sut mae gwaith amlasiantaeth yn cael ei sefydlu a'i lywodraethu. Mae'r ffactorau hyn yn ymddangos yn llai aml yn y llenyddiaeth a adolygwyd, er bod Atkinson (2002) ac Atkinson et al. (2007) yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth, yn enwedig mewn perthynas â gweledigaeth a dycnwch.  Mae arweinyddiaeth gref hefyd yn cael ei chefnogi gan fframweithiau cyffredin ar draws llywodraeth leol y canfyddir eu bod yn allweddol wrth sicrhau canlyniadau da, ym mha awdurdod lleol bynnag y mae'r plentyn yn byw neu pa asiantaeth / rhaglen bynnag y mae’n dod odani[xxvi].

> **Daeth arweinyddiaeth strategol i'r amlwg trwy gydol ein hymchwil fel y ffactor unigol pwysicaf wrth alluogi neu rwystro cydweithio ac integreiddio ar lefel leol. Roedd hyn oherwydd pŵer arweinwyr lleol i osod strategaeth, dylanwadu ar ddiwylliant sefydliadol a chefnogi mentrau sy'n galluogi integreiddio.**
> (Allard et al., dim dyddiad, t. 28)

Mae Brock ac Everingham (dim dyddiad) yn dangos sut gall amrywiad mewn arweinyddiaeth a galluoedd a diddordebau arweinwyr effeithio ar wasanaethau. Gall bod â phersonél mewn rolau uwch sydd fwy neu lai yn ymroddedig i wasanaethau plant a gwaith amlasiantaeth newid yn aruthrol sut darperir y gwasanaeth hwnnw. Fel y dywed un uwch reolwr gwaith cymdeithasol “Rwyf wedi bod yn lwcus, mae fy mhrif swyddogion wedi gweld pwysigrwydd gwasanaethau plant, yn enwedig o ran amddiffyn plant.” (Ibid., t.19).

***Rhannu pŵer rhwng asiantaethau***

Gall anghydbwysedd pŵer rhwng asiantaethau lesteirio gwaith effeithiol ac effeithio ar ganlyniadau. Mae tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn aml yn cael ei chysylltu â thimau amlasiantaeth sy'n gweld ei gilydd fel partneriaid cyfartal ac yn teimlo y gallant drafod gofal y plentyn yn agored gyda'i gilydd[xxvii].

***Rhannu iaith / prosesau / dealltwriaeth***

Yn aml ceir hyd i iaith a rennir ochr yn ochr â hyfforddiant ar y cyd, rhannu gwybodaeth a rhannu pŵer, (weithiau dau neu dri o'r rhain, dro arall bob un o’r pedwar) fel rhan o'r hyn a ddiffinnir fel gwaith amlasiantaeth effeithiol.

O ganlyniad i ffactorau eraill, yn bennaf rhannu gwybodaeth a hyfforddiant ar y cyd, ac fel ffactor ynddo'i hun, mae rhannu iaith, prosesau a dealltwriaeth yn golygu cefnogi'r rhai sy'n ymwneud â gofal plentyn i siarad â'i gilydd heb anawsterau na rhwystrau cyfathrebu, a rhannu protocolau a systemau[xxviii].

## Pam mae gwaith amlasiantaeth yn bwysig ar gyfer canlyniadau plant

Mae'r ffactorau a drafodir uchod yn gysylltiedig ag amrywiol ganlyniadau cadarnhaol i blant. Ceir bod gwaith amlasiantaeth yn arwain at y canlynol:

- Sefydlogrwydd lleoliad (gan gynnwys ailuno a llai o ddiwrnodau mewn gofal)[xxix];
- Gwell iechyd meddwl[xxx];
- Gwell ymddygiad, gan gynnwys gostyngiad mewn defnydd o gyffuriau neu alcohol[xxxi];
- Mynediad gwell a/neu gyflymach at wasanaethau priodol[xxxii];

- Gwell presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol[xxxiii];
- Mwy o ymrwymiad teuluol i'r system ofal, yn benodol o ran presenoldeb rhieni / gofalwyr mewn cyfarfodydd amlasiantaeth a diddordeb yng nghynllun gofal y plentyn[xxxiv];
- Ffocws teulu cyfan, sy'n golygu consyrn am aelodau eraill o'r teulu hefyd, gan gynnwys hyfforddiant / capasiti rhianta, gwasanaethau oedolion, a sgiliau swyddi[xxxv];
- Llai o wahaniaethau mynediad at wasanaethau o ran mynediad anghyfartal i blant o wahanol gefndiroedd[xxxvi];
- Golwg fwy cyfannol ar y plentyn sy'n cydnabod ei anghenion ehangach, yn hytrach na'r hyn a ddisgrifir fel barn fwy 'lleihaol' ynghylch pa wasanaeth penodol y mae ar blentyn ei angen ar unrhyw funud benodol[xxxvii];
- Llesiant cyffredinol ac ansawdd bywyd i blant, teuluoedd a'u cymunedau[xxxviii].

Y thema amlycaf yn y llenyddiaeth yw sefydlogrwydd i'r plentyn, wedi'i ddilyn yn agos gan lesiant a hapusrwydd cyffredinol y plentyn ac weithiau hefyd y teulu. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall newid gweithwyr cymdeithasol yn aml gyfrannu at leoliadau'n methu[xxxix]. Mae Swann a York (2011) yn nodi bod rhannu gwybodaeth yn allweddol mewn sefyllfaoedd lle ceir trosiant staff uchel, er mwyn sicrhau bod aelodau'r tîm yn gyfarwydd â'r achos a'r plentyn.

Canlyniadau haws eu mesur yw gwell presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol a gwell iechyd meddwl, er bod y dystiolaeth ynghylch y rhain yn gyfyngedig, gyda'r mwyafrif o astudiaethau'n dibynnu ar ddata o gyfweliadau a phrofiad bywyd.

Gall gwaith amlasiantaeth arwain at agwedd fwy cyfannol at gefnogi'r teulu a'r plentyn, gyda chanlyniadau cadarnhaol o ganlyniad.

Mewn rhai achosion, mae hyn hefyd yn cynnwys y gymuned. Er enghraifft, mae Vale Guerra a Leitão (2020) yn sôn am blant Roma ym Mhortiwgal nid yn unig yn aros yn yr ysgol ac yn cyrraedd cyfradd adael o sero, ond hefyd am rieni'n derbyn hyfforddiant a chymorth gyda swyddi, gyda'r gymuned yn cyfranogi'n weithredol yn natblygiad rhaglenni ac integreiddio rhwng cymunedau Roma a chymunedau eraill.


O ganlyniad, teimlwyd y buddion, a allai fod wedi canolbwyntio ar y plant ac efallai eu rhieni, ar draws y gymuned Roma ac ymhlith pobl heblaw'r Roma.

Roedd enghreifftiau yn y llenyddiaeth a adolygwyd o effeithiolrwydd tîm neu raglen amlasiantaeth yn chwalu, gan arwain at ganlyniadau gwael i blant a theuluoedd wedi hynny[xl]. Mae pedwar papur yn sôn yn benodol am y syniad o loteri ddaearyddol, lle mae plant yn 'ffodus' i fod mewn ardaloedd lle mae gwaith amlasiantaeth effeithiol yn digwydd[xli]. Yn yr achosion hyn, mae'r materion a nodwyd yn cyfateb i fethiant mewn perthynas ag un neu fwy o'r ffactorau a restrir uchod.

Mae'r dystiolaeth yn anghyson o ran pa gyfuniad o ffactorau sy'n hanfodol i sicrhau gwaith amlasiantaeth effeithiol a chanlyniadau cadarnhaol i blant, gan fod pob astudiaeth yn canolbwyntio ar wahanol agweddau, rhaglenni penodol, a materion cyd-destunol. Atkinson (2002; 2006) ac Atkinson et al. (2005; 2007) sy'n darparu'r dystiolaeth fanylaf ynghylch y ffactorau hyn ac yn dangos pa mor amrywiol y gall profiadau amlasiantaeth fod, ac nad yw eu llwyddiant neu eu methiant yn dibynnu ar un ffactor unigol na chyfuniad ohonynt.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwaith amlasiantaeth yn arwain at adnabod / ymyrryd ac atal yn gynnar; nodir y rhain fel prif ffynhonnell canlyniadau cadarnhaol i blant, cyhyd â bod modd goresgyn rhwystrau megis cyllid tymor byr, diffyg dilyniant, a dyluniad priodol polisïau cyffredinol ac wedi'u targedu[xlii].

Gwelir bod y broses adnabod cynnar hefyd yn sicrhau 'nad yw gwasanaethau'n cael eu




*Ffigur 1: Gweithio'n effeithiol ar draws nifer o asiantaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal*

dyblygu, nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ynysig, a bod y gweithwyr proffesiynol cywir yn ymwneud â theuluoedd'[xliii].

Mae ymyrraeth gynnar yn lleihau'r angen am fwy o gefnogaeth yn ddiweddarach ac yn darparu mwy o sefydlogrwydd i'r plentyn ar y cyfan[xliv]. Mae Young et al. (2008), yn eu gwerthusiad o gost-effeithiolrwydd cymorth cynnar i blant anabl a'u teuluoedd, yn canfod bod cefnogaeth o'r fath yn ariannol gadarn, yn dibynnu ar gymhlethdod y rhaglen amlasiantaeth / cymorth cynnar ac i ba raddau mae wedi'i gwreiddio yn y system ofal.

## Casgliadau

Mae'r canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal yn wahanol i bob plentyn. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ar effaith gwaith amlasiantaeth yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar brosesau, seilwaith, biwrocratiaeth a chanlyniadau i weithwyr.

Bwriad yr adolygiad tystiolaeth hwn oedd nodi'r cysylltiadau rhwng gwaith amlasiantaeth a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Gwelsom y gall amrywiol ddulliau o ymdrin â gwaith amlasiantaeth gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i blant. Yn benodol, mae corff sylweddol o dystiolaeth yn awgrymu bod presenoldeb gweithiwr allweddol ac ymyrraeth gynnar neu ataliaeth yn arbennig o bwysig.

Dangosir bod presenoldeb y gweithiwr allweddol sy'n gysylltiedig â'r teulu ac sy'n gallu cyfarwyddo gwaith asiantaethau eraill, ochr yn ochr â sefydlu perthnasoedd o gydraddoldeb - lle mae pawb dan sylw yn teimlo bod eu mewnbwn yn cael ei werthfawrogi a'i glywed - yn hanfodol wrth ddysgu am faterion posibl cyn iddyn nhw ddatblygu'n broblemau. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith y dylid gwneud y gwaith hwn yn erbyn system gefnogol sy'n cynnwys cyllid sefydlog ac uwch reolwyr.

Gwelwyd bod gwaith amlasiantaeth mewn amrywiol ffurfiau ac ar gyfer achosion amrywiol yn offeryn effeithiol i wella'r canlyniadau i blant mewn gofal. Trwy alluogi golwg gyfannol ar blentyn a theulu, mae'n creu system gymorth well sy'n canfod problemau cyn neu wrth iddynt godi ac yn tywys plant at y gwasanaethau mae arnynt eu hangen.



# Cyfeiriadau

[i] Hodges, 2020.

[ii] Sefydliad Nuffield, 2021.

[iii] Cheminais, 2009.

[iv] Atkinson et al., 2005; 2007; Cheminais, 2009; Constantino et al., 2018; Patsios a Carpenter, 2010; Salmon a Rapport, 2005; Sloper, 2004.

[v] Farmer, 2018; Farmer a Wijedasa, 2013; Hyde-Dryden et al., 2015; Pollock a Farmer, 2001; Wilkins et al., 2015.

[vi] Baginsky a Manthorpe, 2020; Ball, 2014; Brock ac Everingham, dim dyddiad; Chiumento et al. 2011; Golden et al., 2011; Ofsted, 2013; Oxford Brookes, 2019a, 2019b; Talbot et al. 2020; Vale Guerra a Leitão, 2020.

[vii] Atkinson, 2002; Atkinson et al. 2007; Townsley et al. 2004.

[viii] Messenger a Molloy, 2018.

[ix] Davies, 2006.

[x] Abbott et al. 2005a, Abbott et al. 2005b; Barnes, 2008; Burch et al., 2020; Cooper et al., 2016; Dickinson et al., 2009; Holmes a McDermid, 2016; Ofsted, 2013; Pollock a Farmer, 2001; Simkiss, 2012.

[xi] Holmes a McDermid, 2016.

[xii] Dickinson et al., 2009, t. 42.

[xiii] McManus a Boulton, 2020.

[xiv] Ofsted, 2013.

[xv] Atkinson, 2006; Balloch, 2007; Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Rhannu Gwybodaeth, 2016; Moran et al., 2007; Prifysgol Oxford Brookes, 2019a; Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol, 2013; Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, 2011a; 2011b.

[xvi] McLean, 2012; Messenger a Molloy, 2018; Patsios a Carpenter, 2010; Pithouse, 2002; 2006; Sloper 2004.

[xvii] Cooper et al., 2016; Golden et al., 2011; He, 2015; Y Swyddfa Gartref, 2014; Solomon, 2019.

[xviii] Ofsted, 2013.

[xix] Luckock et al., 2017; Baginsky a Manthorpe, 2020; McManus a Bolton, 2020.

[xx] Crocket et al., 2013, t. 42.

[xxi] Messenger a Molloy, 2018; Nooteboom et al., 2021.

[xxii] Allard et al., dim dyddiad; Atkinson, 2006; Cooper et al., 2016; Townsley et al., 2004.

[xxiii] Burch et al., 2020; Carlson et al., 2020; Messenger a Molloy, 2018; Ofsted, 2013; Townsley et al., 2004; Van Dongen et al., 2020.

[xxiv] Y Tîm Mewnwelediadau Ymddygiad, 2018.

[xxv] Chuang a Wells, 2010; Connelly, 2013; Lutman a Farmer, 2013; Townsley et al., 2004.

[xxvi] Allard et al., dim dyddiad; Ervin, 2004; Golden et al., 2011; Hymans, 2008; Sloper, 2004.

[xxvii] Barnes, 2008; Farmer a Wijedasa, 2013; Golding, 2010; McLean, 2012; Townsley et al., 2004; Vale Guerra a Leitão, 2020.

[xxviii] Atkinson et al., 2007.

[xxix] Allard et al., dim dyddiad; Atkinson, 2006; Brock ac Everingham, dim dyddiad; Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Rhannu Gwybodaeth, 2016; Chuang a Wells, 2010; Connelly, 2013; Golding, 2010; Messenger a Molloy, 2018; Nooteboom et al., 2021; Pithouse, 2002.

[xxx] Atkinson, 2002; Burch et al., 2020; Carlson et al., 2020; Golding, 2010; Lutman a Farmer, 2013.

[xxxi] Bai et al., 2009; Cooper et al., 2009; Talbot et al. 2020.

[xxxii] Lutman a Farmer, 2013; Welsh et al., 2008.

[xxxiii] Atkinson et al., 2007; Barnes, 2008; Golding, 2010; Moran et al., 2007.

[xxxiv] Burch et al., 2020; Easton et al., 2010; Dalzell et al., 2007.

[xxxv] Burch et al., 2020; Easton et al., 2010; Moran et al., 2007; Nooteboom et al., 2021; Vale Guerra a Leitão, 2020; Welsh et al., 2008.

[xxxvi] Cooper et al., 2016.

[xxxvii] Barnes, 2008.

[xxxviii] Abbott et al., 2005; Barnes 2008; Vale Guerra a Leitão, 2020.

[xxxix] Abbott et al., 2005; Ball, 2014; Iredale a Cooke, 2020; Nooteboom et al, 2021.

[xl] Conway, 2009; Golding, 2010.

[xli] Brock ac Everingham, dim dyddiad; Carlson et al; 2020; Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, 2011a; Walsh, 2018; Watson et al; 2002.

[xlii] Easton et al., 2010; Golden et al., 2011; Golding, 2010; Y Swyddfa Gartref, 2014; Pithouse, 2002.

[xliii] Ofsted 2013.

[xliv] Farmer 2018.

## Rhagor o wybodaeth

I gael y rhestr gyfeirio lawn, gweler Peixoto Gomes, L. (2021). **Gwaith amlasiantaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: Ffynonellau'r adolygiad tystiolaeth**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

I weld y llinell amser polisi sy'n cyd-fynd â hyn, gweler Taylor-Collins, E. (2021). (2021). **Gwaith amlasiantaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: Llinell amser polisi.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r ganolfan, a gaiff ei ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio ('What Works') y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
**Larissa Peixoto Gomes**

larissa.peixoto@wcpp.org.uk




**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP



Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru / Welsh Government